

CYSTADLEUAETH Y GORON

Beirniadaeth Angharad Elen a Lowri Cooke Braint oedd cael darllen yr 17 ymgais a ddaeth i law. Fel y gŵyr pob awdur gwerth ei halen, nid heb jochiad helaeth o ddewrder y mae concro'r ddalen wag – ac mae llwyddo i gwblhau darn o waith ac yna'i anfon at ddau feirniad i gael ei ddadansoddi a'i bwysu a mesur yn gyhoeddus, yn gofyn am fwy nag un jochiad, dybiwn i. Dylid llongyfarch pob awdur am lwyddo i gyrraedd mor bell â hyn!

Byddai chwynnu tipyn wedi talu ar ei ganfed. Ond awduron yn meithrin eu crefft sydd yma, ac onid oes yn rhaid tyfu blodau i ddechrau, ac arbrofi dipyn, cyn dechrau tocio a mireinio? Ond wedyn, ni welsom lawer o arbrofi yma, chwaith. Ble mae'r asbri heintus yr oedd y ddwy ohonom wedi gobeithio ei brofi? Ble mae'r beiddgarwch amrwd? Ble mae'r torrws rheolau a pham na giciwyd unrhyw dresi?

Ond daeth ambell ysbaid heulog ar fryn. Oherwydd prinder gofod, dim ond y tri a ddaeth i'r brig a gaiff sylw gennym yn y fan hyn.

Mae gwaith Heulyn yn enghraifft o'r arddull bytiog y soniwyd amdani uchod. Rhyngblethir lleisiau tair benyw o'r un teulu mewn gwahanol gyfnodau, a gwahanol arddulliau – a hynny mewn dull cynnil a chelfydd. Mae Heulyn yn amlwg yn meddwi ar eiriau ond mae angen ffrwyno'r mynegiant o bryd i'w gilydd. Effeithiol yw'r disgrifiad o flodau angladd fel blodau 'tawelach' na blodau cyffredin.

Darn cwbl wahanol sydd gan Bodoli. Dyma bensynnu digyfeiriad mewn ffordd uniongyrchol, agos-atoch ar ffurf ymson person ifanc sy'n treulio cyfnod yn derbyn triniaeth am ganser yn yr ysbyty. Does dim dyfais lenyddol soffistigedig na thriciau clyfar yma, dim ond ysgrifennu gonest a chyffyrddiadau effeithiol. Hoffais y llinell hon yn arbennig: 'Dwi'm yn cofio be ddudish i ond doeddan nhw ddim yn eiria go iawn dwi'm yn meddwl'. Er fod yma dueddiad weithiau i fodloni ar ddelweddau ac ymadroddion treuliedig, ac er fod angen chwynnu tipyn ar y ddeialog, dyma, heb os, awdur mwyaf cynnil, a didwyll y gystadleuaeth.

Os mai Bodoli yw awdur mwyaf di-flewyn-ar-dafod y gystadleuaeth, yna Trychfil Bach yw ei antidot. Dyma freuddwydiwr y gystadleuaeth. Dyfynnir T. H. ParryWilliams ar y dechrau, am ei ddyhead i weld y tylwyth teg a'r "bywyd na wŷr ein byd ni". Gŵyr yr awdur hwn sut i greu awyrgylch ac mae ei eiriau yn canu fel pe baent yn bod erioed. Yn rhyfedd ddigon, ac yn gwbl annibynnol ar ein gilydd, cyflyrwyd y ddwy ohonom i ddarllen y gwaith hwn yn uchel; mae hynny'n profi rhywbeth.

Fe'n cyflwynir i fyd Loti – tylwythen sydd ar y trothwy rhwng plentyndod a glaslencyndod ac yn ceisio dod o hyd i'w thraed (a'i hadenydd!) yn y byd. Dyma stori weledol gref, sy'n cynnig chwa o awyr iach wrth i Loti fynd ar daith i wrthryfela yn erbyn trefn ormesol, dotalitaraidd ei byd. Llwyddir i greu sefyllfa ddifyr gyda Loti yn closio at feidrolyn o hen lanc o'r enw Wil.

Er y gellid bod wedi cryfhau yma ac acw, does dim gwadu mai'r darn hwn a roddodd y mwyaf o bleser i'r ddwy ohonom, a'r stori hon a'i chymeriadau sydd wedi aros yn fwyaf byw yn y cof.

Cytuna'r ddwy ohonom fod Trychfil Bach yn deilwng o'r Goron eleni, a hynny am llwyddo i ddal dipyn bach o'r asbri, y dychymyg – a'r penrhyddid hwnnw – yr oeddem ni'n dyheu amdano.

BEIRNIADAETHAU UNIGOL:

Rhyddid – Amryliw

Dyma siwrne bersonol Alys wrth iddi wynebu ei dyfodol, sydd hefyd yn siwrne llythrennol, wrth iddi deithio adre o'r coleg ar drên rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Dyma ymrafael ag argyfwng sy'n herio'i rhyddid personol hi ac mae mentro i'r tir anodd hwnnw yn rhywbeth i'w ganmol yn y gwaith yma. Diolch i fynegiant darllenadwy, datgelwyd cyfyng-gyngor Alys yn raddol bach, sy'n llwyddo i gynnal diddordeb, a'n cydymdeimlad. Diddorol oedd yr ymgais i archwilio teimladau ei phartner, Dylan, ond teimlwn mai portread arwynebol ohono a gafwyd ar y cyfan . Tanseiliwyd y stori gan ymgais frysiog yr awdur i blethu'r cysyniad o rhyddid personol a rhyddid gwleidyddol Cymru. Yn anffodus, dieithrio'r darlennydd y mae naifrwydd yr ymdriniaeth o ryddid gwleidyddol, yn hytrach na chefnogi a chyd-daro gydag aeddfedrwydd argyfwng personol Alys. Gorffenwyd â throad amwys ac er nad yw gorffen gydag amwysedd ynddo'i hun yn beth drwg (i'r gwrthwyneb), teimlwn fod yr awdur wedi colli cyfle, yn yr achos hwn, i archwilio camau nesaf y stori, sef y penderfyniadau y mae Alys yn eu hwynebu – yn eu holl gymhlethdod.

Rhyddid – Bilbo

Mae gimic agoriadol *Bilbo* yn un chwaraeus ac yn cynnig chwa o awyr iach: llythyr cais gan garcharor o Gymro yng ngharchar Lerpwl ydyw – am nawdd gan sefydliad lenyddol Gymraeg. Yn dilyn y llythyr mae tudalen CV gwag, ac yna amlinelliad a rhagarweiniad i gyfres o nofelau ffantasi o'r enw 'Trigo', sy'n croniclo 'Brwydr y Pedair Ynys'. Fel ffan o'r gyfres deledu *Game of Thrones*, fe daniwyd chwilfrydedd y ddwy ohonom. Mae yma ddigonedd o gyffyrddiadau Mabinogaidd hefyd. Dyma antur gyffrous, ac mae'r mynegiant yn groyw, er gwaethaf ambell i gyffelybiaeth ystrydebol, ond paham mai merched, eto fyth, yw dioddefwyr trais gwaetha'r gelyn? Ceir llais pendant yma, beth am wyro oddi wrth y confensiynau treuliedig a welsom ganwaith o'r blaen? Hoffem ddarllen rhagor o waith yr awdur hwn, sy'n dangos addewid, ac awgrym o afiaith a direidi.

Bodoli – Hawl i Fyw

Roedd yr ymson hwn yn ffeffryn mawr, a ddaeth yn agos at gyrraedd y brig, a hynny am ei fod yn cynnig cipolwg gwahanol o fywyd dioddefwr canser. Llais sinigaidd person yn ei ardegau a glywn drwy gydol y darn, sydd wedi gorfod addasu i normalrwydd ei fyd afreal. Ceir adlais o gyfrol ragorol *The Fault in Our Stars* gan yr

awdur John Green, ond nid efelychiad a geir o gwbl gan *Bodoli*. Diolch i gryfder a gwreiddioldeb y mynegiant a'r dawn dweud gonest a chignoeth, llwyddodd y darn i'n cyffwrdd i'r byw, gan wneud inni chwerthin hefyd ar adegau. Dyma awdur cyffrous i gadw llygad arno.

Rhyddid – Dafydd

Dilynwn hanes hen ddyn wrth iddo grwydro llwybrau'r cof mewn stori fer sy'n cynnig troad ar ei diwedd. Sonnir am uchafbwyntiau bywyd Tomos – o grwydro'r Wyddfa gyda ffrindiau ysgol, i'w gyfarfyddiad gyda'i wraig yn y Drenewydd. Er i'r awdur geisio cyflwyno ambell haen o pathos – gan gynnwys tor-calon cynnar iawn ym mywyd Tomos – yn anffodus, mae arddull ffurfiol ac oeraidd y mynegiant yn creu pellter rhwng y gwaith a'r darllynydd. Rhaid aros tan y paragraff olaf un i gydymdeimlo â Tomos, pan ddatgelir ei fod yn dioddef o glefyd Dementia. Yn hytrach na chadw'r wybodaeth honno fel tro yn gynffon, gellid fod wedi godro'r syniad gan ei ddefnyddio mewn ffordd glyfrach er mwyn chwarae gyda'r gynulleidfa. Os unrhywbeth, annog y darllynydd i fyw bywyd i'r eithaf a wna'r darn, ond mae'r ergyd yn syrffedus ar adegau. Yn anffodus, dyw casgliad o fanylion bob dydd am ddyn digon cyffredin ddim yn cynnig portread cyffrous na ddiddorol iawn. Er hynny, mae *Dafydd* i'w ganmol am ei ymdrech i gyfleu neges ddiddorol iawn, ac un sy'n berthnasol i bob un ohonom.

Effwa – Synhwyrâu Rhyddid

Pum dehongliad o ryddid a geir gan *Effwa*, a hynny mewn casgliad o lôn meicro. Mae'r pum darn unigol yn ymateb i synhwyrâu gwahanol; gweld, clywed, arogl, teimlo a blasu. Trwy arddull sionc a darllenadwy, cawn stori merch yn teithio i ysbyty yn Ghana yn gyntaf, a gorffen yng nghwmni croeswisgwr gwrywaidd, dros beint. Ceir cyffyrddiadau teimladwy yn nifer o'r darnau hyn – er enghraifft, yn yr ymson gan fam i faban a Syndrom Downs. Ceir ambell ddelwedd annisgwyl, sy'n hudo'r darllynydd, fel yn achos diwedd y stori gyntaf: 'Edrychais tua'r awyr a gweld haid o adar yn chwyrllïo dros yr ysbyty yn ehangu a chywasgu mewn siâp o undod, fel ysgyfaint rhywun yn crio'. Cynrhychiolir sbectrw m o brofiadau – gan gynnwys ci, a charcharor – ond yn y pen draw, teimlwn fod yma ormod o bwdin, a bod ceisio ymdrin â chynifer o themâu mewn pum darn o lôn meicro yn dalcen rhy galed. O ganlyniad, fe'n rhwystrwn rhag buddsoddi'n llwyr yn yr ysgrifennu. Hoffen weld yr awdur yma'n canolbwyntio ar un syniad neu stori gan wirioneddol ymdrochi ynddi a'i godro i'w llawn botensial.

Rhyddid – Heulyn

Darlun ddirdynnol o ferch, mam a'i nain a gawn gan *Heulyn*, sy'n cyffwrdd i'r byw. Mewn cyfres o ymsonau cynnil, sy'n sboncio yn ôl ac ymlaen rhwng y cenedlaethau,

datgelir saga deuluol dorcalonnus. Datgelir gyfrinachau lu yn gelfydd iawn ynglyn â ffawd pob un o'r merched. Ymdrinnir â nifer o themâu, gan gynnwys galar a thrais yn y cartref, ond trwy'r dŵch ceir fflachiadau o oleuni. Dyma awdur aeddfed, sy'n amlwg yn ddarllenwr brwd – mae'r ysgrifennu'n goeth ac yn gafael yn dynn yn sylw'r darlennydd tan y diwedd – mae yma olygfeydd ffilmig sy'n aros yn hir yn y cof. Cafwyd adlais ar brydiau o waith nofelwyr Cymraeg fel Sian Northey, Haf Llewelyn, a Manon Steffan Ros. Y dueddiad gyda'r darn hwn oedd ceisio ymdrin â gormod o themâu, sy'n cymylu prif fyrddwn y darn, ond bid a fo am hynny, dyma awdur wrth reddf, ac mae'r potensial i'w weld yn amlwg. Edrychwn ymlaen i ddarllen rhagor o'i waith.

Rhyddid – Kiipeilijä

Dyddiadur taith gyffredin a gawn gan *Kiipeilijä*, sef 'dringwr' yn iaith y Ffindir. Ond dringo i nunlle a wna'r cymeriad yn y darn hwn, wrth i'w gynlluniau i goncro dringfa heriol *The Burden of Dreams*, fynd ar chwâl yn dilyn damwain ar ei noson gyntaf yn Helsinki. Er gwaethaf arddull glir a graenus yr ymson hon, ein hawrain ar gyfeiliorn a wnaeth yr awdur, braidd. Byddai troad, neu ddirgelwch neu siwrne o ddarganfyddiad wedi bod i'w groesawu ond yn hytrach, darn digyfeiriad a di-blot a gawsom, heb lwybr emosiynol nac arwyddocaol i'w gynnal chwaith. Cawsom ein harwain mewn cylchoedd gyda sylwadau *banal*, gor-anwl yr awdur: 'Cymerais lond ceg o'r coffi, a rhoi'r cwpan yn ôl ar y bwrdd. Roedd e'n chwerw. Gorffenisais y bastai, ac eistedd nôl i edrych ar y byd yn mynd heibio, a thrio anghofio am chwerwder y coffi wrth i mi geisio gorffen ei yfed.' A dim ond ar y dudalen olaf un y cafwyd teimlad ein bod yn Helsinki. Cafwyd ymgais i sylwebu ar brofiadau mewnfudwyr, a thensiwn gwleidyddol y gymdeithas islaw – sydd i'w ganmol – ond yn anffodus nid thaniwyd diddordeb yr prif gymeriad gan y sylwadau hyn, ac – a o ganlyniad – ni'n taniwyd ninnau chwaith.

Rhyddid – Leri

Dyma stori fer afaelgar sy'n cynnig stori ddirgelwch inni, sy'n cael ei datgelu yn raddol bach. Pan mae Eleri yn dychwelyd adref o'i theithiau ddeuddydd cyn y Nadolig, does dim croeso iddi ar ei hen aelwyd ym Mryn Eithin. Does dim sôn am ei thad, na Deian ei brawd. A fu pla ar led ar hyd y fro, rhyw fath o *zombie apocalypse*? Mae'r meddwl yn rasio wrth inni geisio dyfalu beth sydd ar droed yma. Dechrau addawol tu hwnt! Ond ar ôl hanner cyntaf chwilfrydig yn llawn awyrgylch ac amwysedd, try'r stori yn fwy confensiynol, wrth gyflwyno melodrama sebonaid inni sy'n anghydfynd â naws a *genre* yr hanner cyntaf. Mae yma gymeriadau atyniadol sydd â photensial i apelio'n fawr, ond yn anffodus ni ddaethom i adnabod y tad a'r mab yn ddigon da, ac o ganlyniad mae'r darlennydd yn colli diddordeb braidd, yn eu stori. Difyr, fodd bynnag, fyddai datblygu y stori yma ar ffurf nofel, fyddai'n rhoi

penrhyddid i'r awdur archwilio taith pob cymeriad i'r eithaf. Ar ei orau, mae'r gwaith hwn yn atgoffa rhywun o waith Caryl Lewis ac mae'r dafodiaith Orllewinol yn pefrio yn ddeheuig. Dalier ati!

Pengwern – Eryr y Taranau

Amheuthun yw cael darllen am ddiwylliant estron yn y Gymraeg, a dyma nod *Pengwern* yn 'Eryr y Tarannau'. Adroddir hanes llwyth o Navajo ar gyfnod o drobwynt mawr; dyfodiad y dyn gwyn sy'n bygwth eu bodolaeth. Mae dylanwad y byd ffilm yn amlwg iawn yn y stori hon, sy'n gyforiog o ddelweddau. Gellir synhwyro natur doredig shotiau camera yn y naratif pytiog, sy'n adeiladu yn strwythurol at gyflafan fawr. Mae uchelgais yr awdur yn amlwg, a does dim gwadu ei angerdd at y testun, ond yn anffodus caiff ei drechu gan wendidau; mae yma fynegiant clogyrnaidd, deialog gwan a chymeriadau arwynebol. Ceir tystiolaeth o ymchwil trwyadl iawn i hanes hynod epig; mae stori o'r fath yn haeddu cynfas eang iawn, ac nid stori fer yw ei lle. Os yw *Pengwern* am fod yn awdur rhyddiaith, awgrymwyn y dylai ddarllen yn eang er mwyn dod i ddeall sut y mae saernïo darn o lenyddiaeth grymus.

Rhyddid – Smotyn

Ceir sawl arddull yng nghyfraniad Smotyn, a ysbyrydolwyd gan ffuglen *pulp* a *film noir*. Trwy gyfres o ymsonau, dyddiadur ac ymgom, datgelir pam y dedfrydwyd dyn dieuog i ffawd anobeithiol *death row*. Datguddir *deus ex machina*, sy'n datrys y pŵs, ac sy'n arwain at gyfyng-gyngor pellach. Mae yma gynhwysion addawol ar gyfer darn o ryddiaith ond yn anffodus caiff y ddrama ei thrin mewn ffordd arwynebol ac mae tueddiad i'r cymeriadau fod yn rhai un dimensiwn. Mae'r mynegiant gorffurfiol yn dieithrio'r darllenydd ac mae'n anodd iawn cydymdeimlo â'r prif gymeriad a buddsoddi yn ei drasiedi bersonol.

Smotyn Eto*

Sgript deledu a gawn gan Smotyn Eto: pennod 6 o gyfres o'r enw 'Perthynas'. Cartref henoed yw canolbwynt y gyfres, sy'n ymdebygu i opera sebon hir-dymor. Fe'n cyflwynir l'r preswylwyr, aelodau staff, a pherthnasau'r trigolion a'r staff. Mae'r cof yn un thema, yn achos preswlydd newydd i'r cartref, Guto, sy'n dioddef o dementia a cheir hadau rhamant newydd rhwng dau ymwelwydd ifanc, ond aneglur iawn yw stori Amil, sy'n nyrs gwrywaidd â chanddo gyfrinach fawr. Mae'n anodd malio llawer am y cymeriadau hyn, yn bennaf am nad yw'r ddeialog yn teimlo'n fyw. Tenau iawn yw'r cysylltiad rhwng y sgript hon a thema'r gystadleuaeth, ac nid rhyddiaith mohono chwaith, ond sgript.

Rhyddid - Troednoeth

Cyflwynodd *Troednoeth* bedwar darn sy'n archwilio gwahanol ddehongliadau o ryddid – un o'r cystadleuwyr prin a benderfynodd dacio'r thema'n uniongyrchol. Cyflwynir pob darn gyda dyfyniadau perthnasol a chysylltiedig, mewn ymgais i blethu'r darnau at ei gilydd. Ysbrydolwyd y pedwar gan esgidiau gwahanol; yn llopanau, esgidiau cerdded, sodlau uchel a sandalau glan môr. Y cyfraniad olaf yw'r cryfaf, a'r darn mwyaf gwreiddiol, sy'n dilyn bywyd merch sy'n gweithio'n rhy galed ac yn *workaholic* o fath. Caiff gyfle i dorri'n rhydd oddi wrth undonnedd ei bywyd ar ôl sawru adlais annisgwyl o'i phlentyndod. A yw'r pedwar darn unigol yn cynrhychioli gwahanol agweddau o'r un ferch, dan enwau Magret, Margaret, Mari a Magi? Roedd y cysylltiad rhwng y pedwar darn yn anodd i'w ddiffinio a braidd yn rhy anelwig ydyw, i daro deuddeg mewn ffordd foddhaol. Serch hynny, gadewir y darlennydd yn malio am Magi. Ac mae hynny'n hanner y frwydr!

Rhyddid – Trychfil Bach

Ein tywys i fyd o hud a lledrith a wna *Trychfil Bach* – at Ynys Awendela, sef cartref y tylwyth teg. O'r frawddeg agoriadol, cawn ein croesawu â breichiau agored; darlunnir byd cyflawn a bydolwg pendant iawn. Mae Loti yn dylwythen ifanc sy'n barod i hedfan y nyth, ond mae ei theulu, a gweddill tylwyth teg yr ardal, dan ormes dotalitaraid Gwystl. Deffroad a ddarlunnir yn y stori hon, ac ymgais Loti i dorri'n rhydd o hualau caeth ei chymdeithas er mwyn hawlio'i hunaniaeth ei hun. Ymgollodd y ddwy ohonom yn y chwedl hon. Darllenodd y ddwy ohonom y brawddegau coeth ar lafar, gan ffoli ar rythm naturiol y darn. Yn anffodus, er fod y darn yn dechrau yn addawol tu hwnt, teimlwn mai arwynebol braidd, yw portread yr awdur o'r berthynas rhwng Loti a Wil, yr hen lanc. Ac am fod yma ymgais i greu stori epig o fewn cyfyngiadau stori fer, bu'n rhaid i'r awdur gywasgu'r plot a'r naratif yn yr ail hanner, ac o ganlyniad mae'r darlennydd yn mynd ar goll a nid yw emosiynau'r cymeriadau yn cael eu godro fel y dylen. Mae'r stori'n haeddu ymdriniaeth ehangach ar ffurf nofel gryno i blant neu'r ardeggau neu fel cyfres o gartwŷns. Mae Loti yn arwres werth ei halen, allai ddenu dilyniant sylweddol iawn. Llonyfarchiadau i *Trychfil Bach* am stori uchelgeisiol, synhwyrus a gwreiddiol sy'n llawn addewid.

Y Capten Bach

Llif yr ymwybod a geir gan *Y Capten Bach*, sydd yn amlwg wedi gwirioni'n lân efo'r môr. Ond yn anffodus, does dim ymhellach na hynny yma. Natur hiraethus, ar y cyfan, sydd i'r sgrifennu, wrth i'r awdur ramantu am y môr; dyheir am gael byw fel môr leidr a chael profi rhyddid di-ben-draw. Ond yn anffodus mae'r darn yn un cawdel o gysyniadau digyfeiriad yn cynnwys delweddau treuliedig, ail-law, heb linyr pendant na synnwyr llenyddol. Ni ymdrechwyd i olygu'r ymson hon ac mae olion cyfieithu yn uniongyrchol o'r Saesneg ar ddarnau helaeth ohoni. Rhaid edmygu ymgais yr awdur i gynnig 'rhywbeth gwahanol' ond nid oes synnwyr llenyddol o gwbl

i'r darn hwn o waith. Mae yma gyfeiriadau at Bryan Martin Davies a T. Gwynn Jones, er enghraifft ond heb gyd-destun digonol, teimlwn mai ymgais i ychwanegu dwyster i'r darn yw hyn. Mae asbri a ffyrnigrwydd emosiynol yr awdur tuag at y môr yn amlwg ac efallai nad darn o lenyddiaeth yw'r fframwaith orau ar gyfer sianelu'r egni hwnnw. Tŷ ar y tywod o ymson yw hon ond yn sicr mae yma awch a natur ymchwilgar yn perthyn i'r awdur.

Rhyddid – Y Freuddwydwraig

Cyflyrwyd *Y Freuddwydwraig* i ymateb yn llenyddol i bynciau llosg gwleidyddol y misoedd diwethaf. Ysbrydolwyd un stori fer gan orymdaith ym Mangor, a'r llall gan argyfwng mawr mewnfudwyr Môr y Canoldir. Yn achos yr ail, dychmygir siwrne gôl-geidwad fenywaidd o'r Gambia, Fatim Jawarra, a fu farw ar fordaith o Libya i Ynys Lampedusa. Cafodd yr hanes ei ailadrodd gan newyddiadurwyr ledled y byd, a hawdd deall sut y cafodd yr awdur ei chyffwrdd gan y drychineb. Gwnaeth *Y Freuddwydwraig* ymdrech lew i ychwanegu cig at esgyrn stori Fatim, wrth ddychmygu'r hyn a'i chyflyrodd i ymgymryd â'r daith frawychus. Mae yma ôl ymchwil i'r ffeithiau, ond er mor ddarllenadwy yw'r darn, ni all yr awdur osgoi'r demtasiwn i bortreadu 'arwres' heb iddi lawer o haenau. Brysiog hefyd yw'r diwedd glo trasig, yn anffodus. Darlun caletach, ond credadwy, a geir mewn stori arall ganddi, am alcoholig sy'n profi tro annisgwyl. Ceir ymgais i archwilio cymhelliant unigolyn bregus i orymdeithio ar y cyd ag eraill fel arwydd o brotest. Mae'r arddull dirodres yn datgelu aeddfedrwydd yr awdur, ac mae'r archwiliad o gymeriad cymhleth yn sicr i'w ganmol.

Rhyddid – Y Llwynog

Torture-porn Cymraeg di-chwaeth a gyflwynir yn stori fer hir *Y Llwynog*. Gyda seicopath o garcharor ar ffo yn ardal Caernarfon, mae gan y llofrudd lluosog 'Y Llwynog' gynllun dieflig ar waith; dial ar yr heddwes a'i arestiodd flynyddoedd yn ôl, a'i arteithio ef a'i anwyliaid mewn ogof yn Eryri. Mae hyd yn oed yr awduron ditectif tywyllaf erioed yn cynnig llygedyn o oleuni i gydbwyso erchyllterau mawr. Ond wfftio hynny a wnaiff *Y Llwynog*, gan lenwi'i stori â golygfeydd graffig, a hynny ar draul unrhyw ymgais i lunio cymeriadau o gig a gwaed. Does dim modd cydymdeimlo ag unrhyw un o'r cymeriadau, gan gynnwys y Ditectif Arolygydd Matthew Lewis galongaled. Dyfais yn unig yw awtistiaeth ei fab chwech oed, ac ni cheir ymdrech i drin y cyflwr ag unrhyw sensitifrwydd. Mae ffawd y ddwy wraig yn fysoginistaidd a dweud y lleiaf; does dim ymgais i'w trin fel unigolion cyflawn â photensial i lywio'u ffawd eu hunain. Mae'r Llwynog ei hun yn ystrydeb o wallgofddyn; gyda'i 'wên faleisus' a'i 'lygaid oeraidd'. Mae dylanwad ffilmiau arswyd cyfoes yn glir, ond nid nofelau, ysywaeth, o'r *genre* hwn. Cariad a chyfiawnder a ganfyddir wrth galon nofelau mwyaf treisgar *enfant terribles* llenyddiaeth Gymraeg, Dewi Prysor a Llwyd Owen ond nid oes rhuddun o'r elfennau hynny yn bresennol o gwbl yn y stori hon. Er gwaethaf hyn i gyd, mae yma ddawn ysgrifennu glir, a llwydda'r awdur i gynnal naws

arswydus yn llwyddiannus iawn. Ac er nad oes gronyn o gynildeb yn perthyn i'r delweddu erchyll, mae'r awdur yn deall rythm ac yn datgelu gwybodaeth yn gelfydd iawn. Hoffwn annog yr awdur i ddarllen yn helaeth, i gyfarwyddo â 'rheolau' y *genre*, boed hynny ddim ond er mwyn eu torri drachefn!

Yfory Ddoe – Cadwyni

Archwilio meidroldeb, edifarhad ac etifeddiaeth pechodau'r tad – a'r fam; dyna a gawn yn ymsonau *Yfory Ddoe*, sy'n plethu argraffiadau merch o'r enw Mallt a'i 'Myng-gu', Delilah. Gyda'r naill newydd ddechrau yn yr 'ysgol fowr' a'r llall ar ei gwely angau, clustfeiniwn ar lif ymwybod y ddwy, sy'n archwilio'u dehongliadau o ryddid. Mae Delilah fel cymeriad yn chwa o awyr iach wrth adlewyrchu ar ei bywyd; mae'n grac gyda'i hun am ddilyn y dorf, yn hytrach na gwarchod ei phenrhyddid. Dihangodd i fyd ffantasi droeon mewn ymateb i siom ei bywyd, a ceir awgrym mai i'r un cyfeiriad yr aiff Mallt yn ogystal. Dyma gyfraniad darllenadwy, â dau lais gwahanol iawn, a fynegir mewn dwy dafodiaith wahanol. Ond ceir sawl cymeriad coll, heb leisiau i'w profiadau nhw, a fyddai'n cynnig darlun tecach, mwy cyflawn.